



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar**

**Addysg Gynnar Ysgol Fabanod Borrass  
Ysgol Fabanod Parc Borrass  
Ffordd Parc Borrass  
Wreccsam  
LL12 7TH**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/02/2015

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yn Wrecsam, Gogledd Cymru yw Addysg Gynnar Ysgol Fabanod Parc Borrás. Mae wedi'i leoli mewn adeilad yn Ysgol Fabanod Parc Borrás.

Mae'r lleoliad yn cynnwys mynediad i ardaloedd awyr agored helaeth yr ysgol, gan gynnwys defnyddio ardal yr Ysgol Goedwig. Mae'r lleoliad yn agored am bum prynhawn yr wythnos. Cyflogir pedwar ymarferwr yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 27 o blant ac mae'n derbyn plant yn dair oed. Adeg yr arolygiad, roedd 20 o blant yn mynychu. Mae pob un ohonynt yn dair oed ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae bron pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mehefin 2014 a chan Estyn ym Mai 2007.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Rhagorol</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn rhagorol oherwydd:

- Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- Mae gan bron bob un o'r plant fedrau llythrennedd a rhifedd da iawn
- Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n dda, maent yn huawdl iawn ac yn siarad â'i gilydd ac oedolion yn hyderus
- Mae medrau llafaredd Cymraeg y rhan fwyaf o blant yn dda iawn
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn eithriadol o dda
- Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau dysgu hynod ysgogol
- Mae perthnasoedd gweithio rhwng plant ac oedolion yn gynnes a gofalgar
- Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu diogel a bywiog lle mae plant yn ymgynffwrddo'n dda ac yn cyd-chwarae

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn rhagorol oherwydd:

- Mae gwaith tîm da ac amgylchedd dysgu cadarnhaol yn galluogi plant ac oedolion i weithio a dysgu gyda'i gilydd yn effeithiol
- Mae pob ymarferwr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a phobl eraill
- Mae arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn cyfrannu'n sylweddol at les a lefelau da iawn o gynnydd a wna bron bob un o'r plant
- Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau llwyddiannus iawn y mae'n eu defnyddio'n dda i wella lles a deilliannau plant
- Mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ddarlun clir o gryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w datblygu
- Mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn rhan bwysig o arfer y lleoliad o ddydd i ddydd ac maent wedi'u cysylltu'n effeithiol â gwella lles plant a gwella deilliannau
- Mae gan y lleoliad hanes da iawn o welliannau yn y safonau y mae plant yn eu cyflawni mewn Cymraeg, TGCh a rhifedd

## Argymhellion

- A1 Gwella darpariaeth a chynllunio ar gyfer datblygu dealltwriaeth plant o ddiwylliannau eraill
- A2 Cynnwys rhieni a phlant yn llawnach yn y broses hunanarfarnu
- A3 Adolygu effaith yr hyfforddiant yn effeithiol a defnyddio deilliannau i lywio blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Rhagorol

#### Safonau: Rhagorol

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da iawn, ac mae rhai plant yn gwneud cynnydd eithriadol o dda, o'u manau cychwyn ar draws bron pob maes dysgu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod eang o wybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae bron pob un o'r plant yn huawdl iawn ac yn cyfleu eu meddyliau a'u teimladau i oedolion ac i'w gilydd gan ddefnyddio geirfa ddatblygol a phatrymau brawddeg cymhleth. Maent yn rhannu eu syniadau ac yn siarad yn hyderus am yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n ofalus ac yn cynnig awgrymiadau synhwyrol i gwestiynau. Mae pob un o'r plant yn datblygu eu medrau creu marciau yn dda. Mae llawer ohonynt yn dechrau adnabod ac ysgrifennu llythrennau unigol, yn enwedig y llythrennau yn eu henw. Gall ychydig iawn o blant ysgrifennu eu henwau eu hunain yn annibynnol ar ôl treulio ychydig o wythnosau yn unig yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad am eu hoff gymeriadau yn y storïau y maent yn eu clywed ac yn rhoi sylwadau ar beth sy'n digwydd a beth allai ddigwydd nesaf. Mae llawer ohonynt yn dangos diddordeb mawr mewn llyfrau ac yn dewis darllen iddyn nhw eu hunain neu rannu llyfrau â'u ffrindiau yn ystod cyfnod chwarae rhydd ac maent yn darllen arwyddion syml o amgylch yr ystafell yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Mae safon cynnydd mewn rhifedd yn uchel. Mae bron pob un o'r plant yn dangos dealltwriaeth dda o rifau. Mae bron pob un ohonynt yn cyfrif yn hyderus i ddau ddeg. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif a pharu gwrthrychau yn gywir i ddeg ac yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destun priodol a pherthnasol. Amser byrbryd, mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith fathemategol fel 'gwag' neu 'llawn'. Maent yn deall y syniad o un ffrwyth yn fwy wrth weini ffrwythau. Maent yn cyfrif eu ffrindiau ac yn gallu adnabod ac ail-greu patrymau wrth iddynt chwarae, er enghraifft wrth osod y bwrdd â gosodiadau lle gwahanol liw yn yr ardal chwarae rôl. Heb eithriad, maent yn deall treigl amser trwy ddefnyddio amserydd wy wrth iddynt frwsio eu dannedd a gall llawer ohonynt roi diwrnodau'r wythnos yn eu trefn yn gywir.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ac yn annibynnol fel rhan o'u chwarae. Gall y rhan fwyaf ohonynt reoli teganau batri yn effeithiol ac maent yn defnyddio'r camera ar gyfrifiadur llechen yn hyderus iawn. Gall y rhan fwyaf o blant ddefnyddio rhaglen beintio syml i dynnu lluniau a chreu patrymau a gallant newid lliw a thrwch y llinellau yn annibynnol.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu eu Cymraeg. Gall llawer ohonynt gyfrif i ddeg a gall y rhan fwyaf ohonynt adnabod ac enwi lliwiau sylfaenol yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall ystod eang o gwestiynau ac ymadroddion ac yn ateb yn hyderus ac yn awyddus, gan ddefnyddio ymadroddion byr a brawddegau syml. Mae pob un o'r plant yn ymuno'n frwdfrydig iawn â chaneuon a rhigymau sy'n datblygu eu geirfa Gymraeg yn effeithiol.

## Lles: Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos agwedd gadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae gan blant lefelau uchel o ymgysylltu ac maent yn hyderus yn gwneud dewisiadau wrth iddynt symud rhwng tasgau dysgu sy'n canolbwyntio ar oedolion a thasgau dysgu wedi'u harwain gan blant, gan ddangos safonau uchel o annibyniaeth. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i drafod eu gwaith â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr, ac yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn aros yn brysur ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau priodol.

Mae pob un o'r plant yn dangos parch ac yn arddangos moesau da. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn ystod amser byrbryd pan fyddant yn aros i olchi eu dwylo a rhannu'r byrbrydau. Mae bron pob un ohonynt yn sgwrsio'n dda wrth fwynhau cwmni ei gilydd. Maent yn datblygu medrau dysgu annibynnol da, er enghraifft wrth dywallt eu dŵr neu'u llaeth eu hunain yn ystod amser byrbryd, ac maent yn fodlon mentro a dysgu oddi wrth eu camgymeriadau.

Mae gan blant berthnasoedd gweithio da iawn â'i gilydd ac oedolion. Maent yn dangos ystyriaeth gynyddol tuag at ei gilydd, er enghraifft wrth rannu adnoddau neu gymryd eu tro ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae safonau ymddygiad yn eithriadol o dda. Mae gan bron bob un o'r disgyblion lefelau uchel o hunanreolaeth ac aeddfedrwydd i ddeall cysyniad cymryd eu tro. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o hunanhyder. O ganlyniad, maent yn ymgymryd â gwaith a thasgau syml o ddydd i ddydd yn rhwydd, er enghraifft gweithredu fel monitor byrbryd, gosod y bwrdd ac ailgylchu gwastraff.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
------------------------------------------------------------	-----------

## Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod hynod ysgogol o brofiadau dysgu diddorol a chyfleoedd hwyliog ar gyfer dysgu trwy chwarae. Mae'r rhain yn cynnig her i bob plentyn, gan gynnwys y rhai mwy abl, ac yn ystyried gwahanol anghenion dysgu plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol iawn. Caiff y plant lawer o gyfleoedd gwerthfawr i arbrofi a datrys problemau trwy weithgareddau a phrofiadau o ansawdd uchel dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, wrth adeiladu lloc addas ar gyfer dinosoriaid o wahanol siapiau a meintiau, mae ymarferwyr yn gofyn i blant ragfynegi faint o flocliau y byddai eu hangen arnynt i lenwi ardal benodol.

Mae cynllunio yn sicrhau bod plant yn cael eu cynnwys yn weithredol yn eu dysgu a'u bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i wneud dewisiadau am yr hyn y mae arnynt eisiau ei wneud neu'i ddysgu. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r tu mewn a'r awyr agored yn llwyddiannus i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol plant. Er enghraifft, mae plant yn gwella eu medrau rhifedd trwy amcangyfrif nifer y penbyliaid y byddant yn dod o hyd iddynt yn y pwll ac wedyn yn eu cyfrif. Mae cynllunio ar gyfer llythrennedd yn galluogi plant i rannu ystod o storïau o ansawdd uchel, yn Gymraeg

ac yn Saesneg, sy'n datblygu eu medrau llafaredd yn dda. Rhoddir cyfleoedd helaeth i blant greu marciau â gwahanol ddeunyddiau yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu, ac adnabod eu henwau, er enghraifft pan fyddant yn cofrestru eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer ystod dda o fedrau TGCh, gan gynnwys defnyddio cyfrifiadur llechen bob dydd. Mae hyn yn galluogi plant i ddatblygu ystod o fedrau TGCh effeithiol yn llwyddiannus, er enghraifft gwneud fideos o'i gilydd wrth iddynt ddysgu ac wedyn eu chwarae'n ôl yn annibynnol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau Cymraeg plant yn hynod effeithiol, gan ddefnyddio rhigymau, caneuon a chyfarwyddiadau yn naturiol trwy gydol y sesiwn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus ac yn awyddus i ymateb yn ddigymell wrth iddynt chwarae. Mae'r lleoliad yn dathlu traddodiadau a gwyliau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi. Fodd bynnag, mae cynllunio i gefnogi dealltwriaeth plant o ddiwylliannau eraill yn llai datblygedig.

Mae'r lleoliad yn cynllunio ymweliadau o gwmpas yr ardal, sy'n cefnogi dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas yn dda. Mae pobl sy'n ymweld â'r lleoliad fel yr heddlu ac ymladdwyr tân yn ymestyn eu gwybodaeth am fyd gwaith ymhellach. Ceir cyfleoedd gwerth chweil i blant ddysgu am gynaliadwyedd ac ailgylchu. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn ailgylchu papur, plastig a gwastraff bwyd, ac atgyfnerthwyd dealltwriaeth y plant o'r angen i ofalu am eu hamgylchedd yn sgil prosiect ailgylchu diweddar o'r enw 'Ailgylchu gyda Michael' ("Recycle with Michael").

### **Addysgu: Da**

Mae gan bob ymarferwr ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen a gwybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Mae ymarferwyr yn llawn cymhelliant. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â phlant ac mae hyn yn datblygu hunan-barch a hyder plant yn llwyddiannus i roi cynnig ar weithgareddau a heriau newydd. Mae pob un o'r ymarferwyr yn fodolau rôl iaith da ac mae hyn yn cyfrannu at safonau uchel iawn medrau llafaredd plant ac yn gwella eu geirfa yn effeithiol.

Mae rhediad priodol y sesiynau yn golygu bod gan blant bob amser rywbeth newydd a chyffrous i ennyn eu diddordeb a'u cymell i ddysgu. Mae arferion dyddiol clir a gwaith tîm effeithiol yn cynnig dull cyson ac yn galluogi plant i wybod beth i'w ddisgwyl a theimlo'n hapus a diogel.

Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolyn, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae pob ymarferwr yn ymyrryd yn briodol mewn sefyllfaoedd chwarae i symud dysgu'r plant yn ei flaen, yn aml trwy ddefnyddio holi neu ganmoliaeth briodol yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn asesu cynnydd plant yn rheolaidd trwy arsylwi a chofnodi'r hyn y mae plant yn ei gyflawni. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i greu darlun clir o'r hyn y gall pob plentyn ei wneud a llywio'r camau nesaf yn eu cynllunio yn llwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i rieni drafod cynnydd eu plentyn. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni trwy ddangos copi o'r medrau y maent yn bwriadu eu haddysgu yn y pwnc cyfredol, ar yr hysbysfwrdd ac mewn adroddiad diwedd blwyddyn addysgiadol iawn. Mae hyn yn helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn gartref yn effeithiol iawn.



## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad wedi gwneud trefniadau buddiol i gefnogi iechyd a lles eu plant. Mae pob un o'r ymarferwyr yn ofalgar a chefnogol o'r plant ac yn eu hannog i ddatblygu synnwyr o barch a goddefgarwch tuag at bobl eraill. Yn ystod amser byrbryd, mae plant yn trafod manteision bwyta'n iach a phwysigrwydd golchi eu dwylo.

Mae arferion dyddiol yn galluogi plant i ymdawelu'n gyflym a hyderus ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Mae'r lleoliad yn nodi anghenion dysgu ac emosiynol plant yn dda ac yn gweithio'n galed i'w bodloni. Mae ganddo weithdrefnau clir i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddo rwydwaith effeithiol o gysylltiadau ag asiantaethau allanol er mwyn darparu cymorth a chyngor ychwanegol, yn ôl yr angen.

Mae ystod briodol o brofiadau dysgu yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant mewn ffordd werth chweil. Maent yn adrodd gweddi yn Gymraeg ar ddiwedd y dydd i ddiolch am eu ffrindiau a'u teuluoedd. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo moesau da, cymryd tro a pharch yn effeithiol iawn. Trwy weithgareddau estynedig yn yr Ysgol Goedwig, mae plant yn datblygu eu dealltwriaeth am sut i ofalu am yr amgylchedd. Mae hyn yn meithrin eu synnwyr o syfrdan a rhyfeddod yn dda hefyd wrth iddynt sylwi ar natur yn uniongyrchol trwy eu helpa trychfilod bach ac wrth sylwi ar y tymhorau'n newid.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol yn llai datblygedig. Mae plant yn gwrandao ar sawl stori o ddiwylliannau eraill ac mae rhai rhieni o wledydd eraill yn rhannu eu traddodiadau a'u harferion. Fodd bynnag, cyfyngedig yw dealltwriaeth y rhan fwyaf o blant o arferion a chredoau eraill.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

## **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn yr un cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau. O ganlyniad, mae pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, maent yn hyderus ac yn hapus, ac yn mwynhau siarad ag ymwelwyr am eu profiadau dysgu.

Ceir digonedd o adnoddau o ansawdd da ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd dysgu ac mae'r rhain yn gweddu'n agos i anghenion plant.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r holl le sydd ar gael. Maent yn rhannu'r dosbarth yn ardaloedd dysgu yn llwyddiannus, gan gynnwys creu marciau, adeiladu, creadigol a chwarae rôl. Mae hyn yn galluogi plant i symud rhwng yr ardaloedd hyn yn dda trwy gydol y sesiynau a manteisio ar yr holl adnoddau yn rhwydd. Mae'r amgylchedd yn olau ac ysgogol, gydag arddangosfeydd o ansawdd da o waith plant.

Mae gan y lleoliad fynediad at ystod o ardaloedd awyr agored, gan gynnwys eu maes chwarae amgaaedig eu hunain a defnydd o ardal Ysgol Goedwig helaeth yr ysgol. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r rhain yn effeithiol iawn i gefnogi ystod o fedrau ar draws y meysydd dysgu, yn enwedig medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae'r defnydd a wneir o welyau planhigion yn annog plant i dyfu blodau a llysiau sy'n denu pryfed ac adar. Maent yn cadw ieir hefyd. Mae hyn yn eu galluogi i werthfawrogi natur yn uniongyrchol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau cymunedol yn dda. Mae'r defnydd a wneir o dir yr ysgol leol ac ymweliadau â'r siopau lleol yn cynnig profiadau dysgu ychwanegol sy'n cael effaith fuddiol ar ddatblygiad corfforol a medrau cymdeithasol plant yn arbennig.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Rhagorol</b>
----------------------------------------------------------------------------	-----------------

### **Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinydd y lleoliad yn sefydlu gweledigaeth glir yn seiliedig ar ymdrech i wella deilliannau plant a chyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel, tra'n cynnal amgylchedd meithringar a hapus. Mae'n cyfleu nodau'r lleoliad yn effeithiol iawn i ymarferwyr a rhieni. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y safonau uchel iawn a gyflawnir gan blant, yr addysgu a arsylwyd, sy'n gyson o ansawdd da, a'r profiadau dysgu hynod ysgogol a ddarperir ar gyfer plant.

Mae arweinydd y lleoliad yn mynd ati i chwilio am ffyrdd y gall y lleoliad wella ac mae'n ymateb yn gyflym i unrhyw arweiniad a chyngor. Mae targedau ar gyfer gwella yn heriol ac mae'r tîm ymroddgar o ymarferwyr yn cefnogi'r rhain yn dda. Mae disgrifiadau swydd clir a chyfoes ar waith. O ganlyniad, mae pob un o'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus fel tîm ac yn cymryd rhan bwysig mewn symud y lleoliad yn ei flaen. Maent yn rheoli eu hamser yn dda ac yn rhoi cymorth hynod effeithiol i bob plentyn.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da iawn o system werthuso gadarn i gefnogi a herio ymarferwyr yn dda. Mae targedau yn cysylltu ag anghenion hyfforddi priodol ac yn uniongyrchol â chynllun gwella'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd cryf o gyfarfodydd i drafod cyflawniadau a chynnydd plant a datblygu cynllunio.

Caiff ymarferwyr eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am feysydd allweddol, sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn atebol ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gan bob ymarferwr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a phobl eraill. Maent yn myfyrio'n dda ar eu perfformiad eu hunain ac yn deall yr angen i gynnig a chynnal gwelliannau. Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd da iawn wrth fwrw ymlaen â mentrau cenedlaethol, yn enwedig yn y defnydd effeithiol a wna o ddysgu yn yr awyr agored i gefnogi datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

## **Gwella ansawdd: Da**

Mae pob ymarferwr yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn dangos ymrwymiad clir i welliant parhaus. Mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn rhan reolaidd o'u gwaith. Maent yn cyfrannu'n briodol at archwiliad blynyddol sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae arweinydd y lleoliad yn casglu ystod o dystiolaeth addas i lywio hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys craffu ar waith plant, arsylwadau gwersi a sylw priodol i ddata. Er bod hon yn broses gymharol newydd, mae'n rhoi darlun clir a chywir iawn i bawb yn y lleoliad o gryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella.

Mae mentrau diweddar wedi arwain at welliannau yn neilliannau plant, yn enwedig eu medrau llafaredd Cymraeg, eu medrau rhifedd a'u lles. Mae wedi arwain hefyd at brofiadau dysgu o ansawdd uchel y mae ymarferwyr yn eu darparu.

Mae'r lleoliad yn ystyried safbwyntiau rhieni a phlant yn briodol ond nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith fesuradwy eto.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r lleoliad yn gywir ac yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella. Mae cynllun gwella'r lleoliad yn cysylltu â hyn yn briodol ac yn amlinellu targedau addas a chymau mesuradwy i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Mae'n nodi anghenion ymarferwyr o ran hyfforddiant ac adnoddau, costau cyffredinol a meini prawf llwyddiant yn briodol hefyd. Mae'r arweinydd, gyda chymorth gan yr athro cymorth cyswllt, yn gyfrifol am adolygu'r cynllun gwella yn rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd hyfforddi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer yn y Cyfnod Sylfaen a datblygu eu defnydd o wybodaeth am asesu ac olrhain er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion plant unigol. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad bob amser yn myfyrio'n ddigon da ar effaith yr hyfforddiant.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y lleoliad ystod helaeth o bartneriaethau hynod effeithiol. Ceir partneriaethau cryf iawn gyda rhieni. Mae arweinwyr yn rhagweithiol wrth rannu nodau ac amcanion y lleoliad gyda nhw yn rheolaidd. Mae'r lleoliad yn darparu lefelau uchel o wybodaeth i rieni trwy hysbysfwrdd y lleoliad a chylchlythyrau rheolaidd, trwy'r wefan a thrwy gyswllt personol dyddiol. Mae gan rieni drosolwg a dealltwriaeth glir iawn o nodau'r lleoliad a'i feysydd i'w datblygu, ac maent yn teimlo bod ganddynt rôl weithredol mewn datblygu'r rhain. Mae rhieni'n werthfawrogol iawn o'r ymweliadau cartref a gynhelir cyn i'w plentyn ddechrau yn y lleoliad. Trwy allu arsylwi plant yn eu hamgylchedd eu hunain, mae ymarferwyr yn cefnogi lles ac anghenion dysgu unigol pob plentyn yn hynod effeithiol wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad. Mae'r cyfnod ymsefydlu hwn, sydd o ansawdd uchel, yn helpu plant i ymgynefino'n gyflym a hyderus.

Mae'r 'sesiynau llyfrau fideo' arloesol a gynhelir bob pythefnos yn cynorthwyo rhieni ymhellach i ddeall sut mae eu plentyn yn dod yn ei flaen. Gallant weld pa weithgareddau y mae eu plentyn wedi cymryd rhan ynddynt a rhannu trafodaethau am eu cynnydd gydag ymarferwyr. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r cyfle hwn i rannu

gwybodaeth am ddatblygiad plant gyda rhieni a rhoi cyngor effeithiol am weithgareddau y gall rhieni eu gwneud gartref i gynorthwyo eu plentyn. Yn ychwanegol, maent yn darparu adnoddau sydd wedi'u teilwra'n benodol yn unol ag anghenion plant unigol, i rieni eu defnyddio gartref. Enghraifft o hyn yw'r gweithdy addysgiadol i rieni am ddatblygu adnoddau a syniadau rhif i gefnogi datblygu medrau mathemategol. Mae gweithdy Cymraeg yn cynorthwyo rhieni yn llwyddiannus i ddatblygu eu geirfa Gymraeg eu hunain a geirfa Gymraeg eu plentyn. Mae'r adnoddau hyn yn aml yn ymateb i ddiddordebau penodol plant y mae ymarferwyr yn eu harsylwi yn y lleoliad. Mae'r agwedd hon ar waith y lleoliad yn arwain y sector ac yn helpu rhieni i ddeall anghenion datblygiadol eu plentyn a sut i'w gynorthwyo i gyflawni'r rhain. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y safonau uchel iawn, lefelau lles ac annibyniaeth y mae pob plentyn yn eu harddangos.

Ceir partneriaeth gref a buddiol gyda'r ysgol fabanod leol ac athro cyswllt y lleoliad, sy'n gweithio yn yr ysgol. Mae ymarferwyr yn croesawu'r cymorth a gânt. Mae'n helpu i wella darpariaeth trwy rannu adnoddau, gwella cynllunio gwelliant a chefnogi olrhain cynnydd plant yn gywir mewn modd llwyddiannus trwy rannu arbenigedd. Mae'r bartneriaeth weithio agos hon yn galluogi plant i drosglwyddo o'r lleoliad i feithrinfa'r ysgol yn ddiraffferth.

### **Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn defnyddio ymarferwyr yn effeithiol ac mae ansawdd adnoddau yn dda ac yn cefnogi anghenion dysgu'r plant yn dda. Mae gan ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas mewn gweithio gyda phlant ifanc.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i wella eu harbenigedd proffesiynol. Er enghraifft, maent wedi mynychu hyfforddiant i wella eu medrau Cymraeg, ac ar gynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant ar draws meysydd y cwricwlwm. Mae'r hyfforddiant hwn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd uchel y ddarpariaeth a welwyd ac yn gwella deilliannau plant a'u lefelau dysgu'n annibynnol yn llwyddiannus.

Mae arweinydd a phwyllgor rheoli'r lleoliad yn ymwybodol iawn o anghenion o ran adnoddau ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o faterion cyllidebol. Maent yn blaenoriaethu'r rhain yn effeithiol iawn yn unol ag anghenion cynllun gwella'r lleoliad. Maent yn arfarnu penderfyniadau ariannol er mwyn nodi'r effaith ar ddeilliannau a lles plant yn ofalus. Mae prynu cyfrifiaduron llechen yn ddiweddar wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i blant ddefnyddio TGCh ac mae'n gwella eu medrau TGCh yn effeithiol.

Yng ngoleuni'r safonau rhagorol a gyflawnir gan blant, ansawdd da'r addysgu a arsylwyd, ac ansawdd uchel yr arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

### Yr Arolygydd Cofnodol

Mrs Susan Davies	Arolygydd Cofnodol
------------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBC GP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.
<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.